

Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid 2014-2017



Cyngor Sir y Fflint Yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru

Cynllun Gwella Strydoedd Glannau Dyfrdwy Eiddo masnachol a blaen siopau

Mynegi diddordeb – nodiadau canllaw

Bydd Cynllun Gwella Strydoedd Glannau Dyfrdwy yn rhoi grantiau i wella golwg allanol siopau ac adeiladau masnachol yng nghanol trefi Cei Connah, Garden City, Shotton a Queensferry. (*Edrychwch ar y mapiau o'r ffiniau i weld pa eiddo sy'n gymwys). Os ydych chi'n berchen ar siop, busnes neu eiddo masnachol yn yr ardaloedd dan sylw, neu os ydych chi'n gyfrifol am gynnal a chadw eiddo o'r fath ac wedi cael caniatâd y perchennog, cewch wneud cais am gymorth ariannol.

Mae'r prosiect hwn yn cydnabod rôl bwysig canol trefi a chanolfannau siopa ym mywyd y Sir. Gall strydlun atyniadol, sydd wedi'i gynllunio a'i reoli'n dda, sbarduno gweithgarwch economaidd a chreu bwrlwm yng nghanol trefi Glannau Dyfrdwy a'u gwneud yn fwy atyniadol a llewyrchus.

Bydd grant o hyd at **80%** o gost y gwaith ar gael, a'r **uchafswm fydd £15,000 am bob cynllun.**

Mewn amgylchiadau eithriadol iawn, mae'n bosibl yr ystyrir codi'r uchafswm hwn ar gyfer cynlluniau llawer iawn mwy a fyddai'n cael effaith sylweddol ar y strydlun.

Engbreiffitiau o waith sy'n debygol o fod yn gymwys	Engbreiffitiau o waith nad ydynt yn debygol o fod yn gymwys
<ul style="list-style-type: none">• Gwella ansawdd blaen siop.• Ailosod nodweddion pensaernïol sydd wedi'u colli.• Cynllun a gogwydd ffenestri.• Elfennau adeiladu blaen stryd.• Arwyddion busnesau a siopau.• Tacluso gwifrau allanol etc.• Cael gwared ar gaeadau ar y tu	<ul style="list-style-type: none">• Gosod caeadau ar y tu allan i ffenestri.• Arwyddion mewn blychau â golau.• Gwaith cynnal a chadw cyffredinol.• Costau rhedeg busnes (e.e. costau staff a phrynu stoc)

allan i ffenestri.

- Gwaith i eiddo preswyl.
- Gwaith mewnol neu adeileddol.
- Gwaith trwsio dros dro.

Ni ddylai gymryd mwy na 10 munud i lenwi'r ffurflen mynegi diddordeb.

Sut i wneud cais

Mae dau gam i'r broses ymgeisio:

- (1) Mynegi diddordeb i benderfynu a yw'r prosiect yn gymwys, yna
- (2) Cais llawn, i sefydlu'r trefniadau cytundebol manwl.

Cyllideb benodol sydd gan y cynllun grant a daw i ben ar ôl dyrannu'r holl gyllideb sydd ar gael i brosiectau cymwys.

Byddai'n syniad da cysylltu'n fuan â thîm y prosiect er mwyn holi a fydd y gwaith sydd ganddynt mewn golwg yn debygol o fod yn gymwys. Mae croeso i chi gysylltu â thîm y prosiect ar 01352 702016 os hoffech ragor o wybodaeth neu gyngor.

Gwaith cymwys

Mae'r cynllun yn caniatáu i berchnogion a thenantiaid eiddo wneud cais am grant, cyhyd ag y bo telerau eu cytundeb prydles presennol yn briodol a bod y brydles yn para am bum mlynedd arall. Rhaid i'r ymgeisydd hefyd gael caniatâd y perchennog/landlord a chael caniatâd ysgrifenedig bod y gwaith arfaethedig yn dderbyniol.

Rhaid i'r adeilad fod o fewn ffiniau canol tref Cei Connah, Garden City, Shotton neu Queensferry (*edrychwch ar y mapiau o'r ffiniau i gadarnhau hyn).

Rhaid i'r ymgeisydd fod yn Fusnes Bach neu Ganolig (sef llai na 250 o staff a throshiant blynyddol o ddim mwy na thua £40 miliwn). Er mai busnes yw menter fel arfer, gall hefyd gynnwys elusennau neu gyrff nid er elw. Nid yw'r grant ar gael i unigolion preifat.

Sylwch fod y grantiau'n ddewisol ac maent yn dibynnu ar y gyllideb sydd ar gael. Er y gall adeilad fod o fewn ardal gymwys, nid yw hynny'n golygu y bydd yn gymwys i gael grant yn awtomatig. Rhaid gwneud penderfyniadau masnachol ar y sail y bydd unrhyw grant yn amodol ar gael cymeradwyaeth llawn yn unol â'r amodau a'r telerau perthnasol.

Ni fydd gwaith a gwblhawyd eisoes yn gymwys, na gwaith a ddechreuodd cyn cael cynnig arian grant yn ffurfiol.

Sylwch y bydd y Cyngor yn archwilio statws credyd pob ymgeisydd i sicrhau nad oes arnynt arian i'r Cyngor (e.e. ardrethi busnes). Bydd hefyd yn holi adrannau fel Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Rheoli Adeiladu, i sicrhau nad oes unrhyw broblemau heb eu datrys yn ymwneud â'r ymgeisydd.

Egwyddorion ac ystyriaethau cynllunio

Un o swyddogaethau pwysicaf blaen siop neu eiddo masnachol yw dangos i'r cyhoedd beth yw natur y busnes. P'un a yw'r prosiect yn ymwneud â chynllunio blaen newydd neu gynllunio i'w newid yn gyfan gwbl, mae'n bwysig ystyried effaith weledol y cynllun ar yr adeilad yn ei gyfanrwydd ac ar olwg y stryd ehangach.

Mae cyngor ynghylch cynllunio blaen strydoedd i'w gael ar y rhyngwyd; defnyddiwch y testun a ganlyn i chwilio am wybodaeth ddefnyddiol:

Canllawiau cynllunio blaen siopau a ffasadau masnachol Cymru / Wales shop front and commercial facade design guidance.

Os caiff eich Mynegiant o Ddiddordeb ei gymeradwyo, mae'n bosibl y bydd yn briodol i ymgeiswyr llwyddiannus benodi pensaer neu asiant i ddatblygu'r cynlluniau, cyflwyno'r cais llawn a goruchwyllo'r prosiect. Rhaid caffael yr asiant drwy sicrhau o leiaf tri amcan bris, a rhaid i gostau'r asiant ddangos gwerth am arian wrth ei fesur yn erbyn cyfanswm cost y prosiect. Os ystyrir bod y costau'n rhy uchel, na chânt eu had-dalu o dan y cynllun. Caiff y costau hyn eu cynnwys yn yr uchafswm o £15,000 a dyrennir i bob cynllun.

Cyllid

Ar ôl cymeradwyo'ch Mynegiant o Ddiddordeb, bydd angen tri thendr am y gwaith arfaethedig ar gyfer y cais llawn. Ni fydd y cwmni sy'n gwneud cais am y grant na chwmnïau o dan ei reolaeth neu ei ddylanwad yn gymwys i dendro am y gwaith.

Caiff yr holl daliadau eu gwneud fel ôl-daliad ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau'n foddhaol ac ar ôl cael tystiolaeth bod y cyflenwyr wedi cael eu talu.

O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bydd gwybodaeth am y rhai a gafodd grantiau, a'r symiau a gawsant, ar gael i'r cyhoedd ei weld.

CANLLAWIAU AR GYFER LLENWI FFURFLEN MYNEGI DIDDORDEB

Adran 1: Gwybodaeth am yr eiddo a'r ymgeisydd

- A Rhowch wybodaeth am yr eiddo dan sylw. Dylai hyn gynnwys enw a chyfeiriad y busnes, gan gynnwys y cod post. Cofiwch gynnwys arwynebedd y brif uned fusnes (metr/troedfedd sgwâr) a hefyd unrhyw rannau eraill o'r eiddo, gan gynnwys y llawr cyntaf. Bydd y wybodaeth hon ar gael yn eich hysbysiad ardrethi busnes.
- B Os yw'r prif gyswllt ar gyfer y cais am grant yn wahanol i berchennog yr eiddo, rhowch fanylion cyswllt yr ymgeisydd.
- C Rhoch wybodaeth am statws eich sefydliad (e.e. BBaCH, elusen, corff cyhoeddus). Ni fydd grant ar gael i unigolion preifat.

- D Pan fyddwch yn gwneud cais llawn (os caiff eich mynegiant o ddiddordeb cychwynnol ei gymeradwyo) bydd angen i chi ddangos prawf mai chi yw perchennog yr eiddo a bydd angen copi swyddogol o'r teitl cofrestredig cyfredol ynghyd â chopi o'r cynllun cofrestredig. Mae hwn ar gael gan Gofrestfa Dir EM: rhif ffôn 0844 892 111 (rhif ymholiadau cyffredinol), gwefan – www.landregistry.gov.uk
- E Os nad chi yw perchennog rhydd-ddeiliadaeth yr adeilad, bydd angen caniatâd ysgrifenedig gan eich landlord pan fyddwch yn cyflwyno'r cais llawn, yn nodi ei fod yn fodlon i'r gwaith fynd rhagddo, ynghyd â thystiolaeth yn dangos bod y brydles yn para am bum mlynedd arall (mae'n bosibl y byddwn yn gofyn am weld y copi gwreiddiol).

Adran 2: Y gwaith arfaethedig

- F Rhowch fraslun o'r gwaith a fydd yn cael ei wneud i'r adeilad os caiff y grant ei gymeradwyo. Ni fydd angen cynnwys manylion y defnyddiau i'w defnyddio na meintiau, ond dylech gynnwys gwybodaeth am:
- i) Yr holl waith a gaiff ei wneud;
 - ii) Sut y bydd yn effeithio ar olwg yr adeilad o'r stryd;
 - iii) Yr effaith ar fynedfa'r adeilad.
- Cofiwch gynnwys luniau o'r tu allan i'r eiddo yn ei gyflwr presennol.
- G Rhowch fanylion yr asiant rydych yn ystyried ei gyflogi i gynllunio'r newidiadau, y manylebau, i sicrhau caniatâd cynllunio, ac i reoli'ch prosiect. Dylech ystyried cynllun blaen y siop, arwyddion, caniatâd cynllunio, manylebau'r cytundeb, tendro a goruchwylio'r gwaith ar y safle.
- H Bydd angen cadarnhau a yw'r eiddo'n adeilad rhestredig, a oes gennych ganiatâd cynllunio, rheoliadau hysbysebu neu adeiladau. Rhaid i'r ymgeisydd sicrhau bod y prosiect yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol a bod yr holl hawlenni a'r trwyddedau angenrheidiol wedi'u sicrhau am yr elfennau ar y gwaith y bydd y gwaith yn eu hariannu. Sylwch mai cyfyngedig iawn yw hawliau adeiladau masnachol o ran Datblygiadau a Ganiateir, ac efallai y dylech ffonio cyngor Sir y Fflint i ofyn am gyngor: 01352703234.
- I Nodwch amcangyfrif o gost y gwaith, ynghyd â gwybodaeth am unrhyw grant neu fenthyciadau eraill rydych yn bwriadu eu defnyddio i ariannu'r gwaith.
- J Arian cyhoeddus i helpu busnesau yw'r grant hwn ond ni chaiff ei roi i fusnesau sydd wedi derbyn £165,000, at ei gilydd, ar ffurf cymorth ariannol dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf (sef grantiau, benthyciadau, cymhorthdal i fusnesau etc.) Rhestrwch y cymorth ariannol a gafodd eich sefydliad ar gyfer eich gweithgareddau busnes dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf, y dyddiadau a'r symiau perthnasol.

- K Dywedwch pryd rydych yn disgwyl i'r prosiect ddechrau (gan ganiatáu amser i gael caniatâd i fwrw ymlaen â'r gwaith, ac i gynllunio a thendro am y gwaith) a phryd rydyn yn disgwyl iddo gael ei gwblhau. Cyllideb benodol sydd gan y cynllun grant a daw i ben ar ôl dyrannu'r holl gyllideb sydd ar gael i brosiectau cymwys. Rydym yn eich cynghori felly i wneud cais cyn gynted â phosibl, gan y bydd y bloc cyntaf o grantiau'n cael eu dyrannu ym mis Rhagfyr 2014. Cânt eu dyrannu wedyn bob dau fis.
- L Un o brif amcanion y grant yw creu neu gynnal cyfleoedd gwaith yn yr ardal. Yn yr adran hon, dylech amlinellu sut y byddai gwella'r adeilad naill ai'n creu swyddi newydd neu sut y bydd y gwaith yn helpu i gynnal neu ehangu'r busnes presennol, ynghyd ag amcanestyniadau o nifer y swyddi y gellid eu cadw neu eu creu.
- M. Gofalwch fod y manylion ar y ffurflen yn gywir cyn ei llofnodi i gadarnhau bod y wybodaeth yn gofnod cywir.

[Redacted]


[Redacted]


[Redacted]


[Redacted]

[Redacted]

[Redacted]







**Vibrant and viable places
Bringing vibrancy back to the high street**

**Connah's Quay
Deeside frontage improvement
Target areas**



This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100029868. Flintshire County Council, 2016.

Planning & Environment,
Flintshire County Council,
County Hall, Mold,
Flintshire, CH7 6NF.
Chief Officer: Mr Andrew Farrow

Scale 1:8000 @ A4
OS Map SJ 3069
Plotted 09/09/2014



